



Galwad Agored - Strydoedd Unigryw

CEFNDIR

Mae'r Stryd Fawr wedi bod yn ganolbwynt i gymunedau ledled Cymru, drwy greu swyddi, meithrin busnesau bach a gyrru economïau lleol a rhanbarthol. Erbyn heddiw mae'r stryd fawr yn wynebu heriau yn sgil y cynnydd mewn siopa ar lein, canolfannau siopa' mawr ac archfarchnadoedd. Mae'r uchod wedi cael effaith negyddol ar fasnach y Stryd Fawr a hynny yn ei dro wedi cyfrannu tuag at ddirywiad yn ein canol trefi.

Erbyn heddiw mae defnyddwyr yn chwilio am ystod o brofiadau ar y Stryd Fawr, o siopa i hamdden i adloniant i wasanaethau iechyd; erbyn heddiw dylai'r Stryd Fawr fod yn cynnig profiad unigryw na all pobl fynd i unrhyw le arall i'w gael.

Mae dirywiad y Stryd Fawr yng Ngwynedd yn bryder i nifer o bobl, beth am geisio taclo'r her hwnnw gan ddefnyddio datrysiadau creadigol!



HER AGW

Mae AGW yn chwilio am 3 cymuned i gydweithio a hwy er mwyn treialu dulliau newydd ac arloesol fydd yn:-

- i) cynyddu nifer yr ymwelwyr i'r Stryd, ac yn sgil hynny i'r ardal yn ehangach
- ii) cynyddu lefel o wariant yn lleol

Allbwn y cynllun fydd cynhyrchu enghreifftiau o arfer da i eraill yng Ngwynedd ynghyd â phecyn gwybodaeth o sut i fynd ati. Bydd hefyd cyfle i ymgeisio ar gyfer gwobrau "[Great British High Street <https://thegreatbritishhighstreet.co.uk/high-street-of-the-year-awards>](https://thegreatbritishhighstreet.co.uk/high-street-of-the-year-awards)". Mae Gwobrau GBHS yn rhannu enghreifftiau blaenllaw o'r ffyrdd y mae'r Stryd Fawr yn llwyddo i oresgyn heriau ac yn annog mabwysiadu arferion gorau ledled y wlad.

Rhai syniadau y gellir ei beilota:

- ❖ Gosodiadau celf (art installations)
- ❖ Dodrefn Stryd
- ❖ Gweithgareddau e.e. perfformiadau, carnifal digidol
- ❖ Arwyddion

Dylai'r syniadau fod yn atyniad fydd yn denu ymwelwyr ac yn fodd o ddangos beth sydd gan y Stryd / ardal i'w gynnig.

Fel rhan o'r cynllun bydd AGW yn darparu:

- Cymorth (yn ôl yr angen) i ddatblygu syniadau
- Unrhyw offer / gwasanaethau / arbenigwyr perthnasol (e.e. artistiaid lleol)
- Ffilm fechan o'r gwaith er mwyn hyrwyddo a lledaenu i eraill
- 'Toolkit' i adnabod y gwersi a ddysgwyd

Bydd yn ofynnol i'r gymuned lwyddiannus ddarparu'r canlynol:

- Dod a phobl berthnasol ynghyd
- Cysylltiadau a chefnogaeth / ymrwymiad y busnesau lleol
- Datblygu syniadau bras (dylai'r syniadau gyfleu'r hyn sydd yn unigryw i'r Stryd / ardal honno)
- Gwirfoddolwyr yn barod i ymrwymo amser ar gyfer cydlynio a gweithredu'r cynllun
- Cymryd rhan yng ngweithgaredd i hyrwyddo a lledaenu profiadau a gwersi i eraill
- Cyfrannu lleiafswm o 10% Arian cyfatebol at gyfanswm cost y prosiect
- Bydd hefyd disgwyl i'r busnesau ar y Stryd ymrwymo i gydweithio gyda Swyddog Byd Busnes Cymraeg
- Adnabod ffyrdd o gasglu data er mwyn mesur effaith y cynllun ar y Stryd

CYFLWYNO SYNIADAU

I gyflwyno cais cwblhewch y ffurflen atodol. Bydd ceisiadau yn cael eu mesur yn erbyn y meini prawf canlynol:

1. Criw ymroddgar
2. Cysylltiadau yn y gymuned, yn arbennig ymhlith y gymuned fusnes
3. Syniadau gwahanol / arloesol
4. Gallu i gasglu data er mwyn mesur effaith

AMSERLEN

Gofynnir i chi gyflwyno'r ffurflen atodol a'i anfon yn ôl i carwyn@mentermon.com erbyn **4pm Dydd Llun y 7fed o Ionawr**

COSTAU

Noder y bydd uchafswm o £15,000 ar gael i bob cymuned. Gofynnir i'r cymunedau ddarparu lleiafswm o 10% o gyfanswm cost y prosiect fel arian cyfatebol e.e. os yw cyfanswm y prosiect yn £15,000, disgwylir i'r gymuned gyfrannu £1,500 o arian glan (heb ei ddeillio o arian yr Undeb Ewropeaidd) tuag ato.

MANYLION CYSWLLT

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Carwyn ap Myrddin drwy e-bost - carwyn@mentermon.com <<mailto:carwyn@mentermon.com>> neu ffoniwch 01766 515 946.

